



Eich cyf/Your ref P-05-1115
Ein cyf/Our ref JJ/03225/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

29 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-05-1115: 'Stopiwch fferm Solar anferth a fydd yn dinistrio dolydd hynafol ger y Fenni'. Mae'r ddeiseb yn gofyn i Weinidogion Cymru wrthod unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.

Mae'r datblygiad, y cyfeirir ato fel Fferm Solar Penpergwm, yn fferm solar arfaethedig 45MW gyda storfa batri gysylltiedig ym Mhenpergwm, ger y Fenni, Sir Fynwy. Gan fod ganddo allu cynhyrchu gosodedig disgwylidig o dros 10MW, mae'n Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC") a rhaid gwneud ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

Oherwydd rôl statudol Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio DAC, ni allaf wneud sylwadau ar rinweddau cynigion unigol gan y gallai gwneud hynny ragfarnu unrhyw benderfyniad y gellir ei wneud mewn perthynas ag ef. Fodd bynnag, gallaf egluro digwyddiadau hyd yma.

Mae'r ddeiseb yn awgrymu bod Cyngor Sir Fynwy ("CSF") wedi 'gwrthod' cais sgrinio gan y datblygwr. Gan nad CSF yw'r awdurdod penderfynu, ni all gyhoeddi penderfyniadau o'r fath mewn perthynas â cheisiadau cynllunio DAC.

Mae'r ddeiseb hefyd yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi 'derbyn' cais sgrinio. Cyflwynodd yr ymgeisydd gais ar 14 Hydref i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i benderfynu a oes angen Aseiad Effaith Amgylcheddol ("AEA") ar y datblygiad, o fewn ystyr Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (AEA) (Cymru) 2017, i ategu unrhyw ddarpar gais cynllunio DAC.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Penderfynodd yr Arolygiaeth Gynllunio, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, ar 12 Tachwedd nad oes angen AEA. Mae'r rhesymeg lawn y tu ôl i'r cyfeiriad wedi'i chynnwys yn y cyfeiriad canlynol (Saesneg yn unig):

<https://dns.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/projects/DNS/3252305/DNS-3252305-000009-2020-11-12%20-%20Screening%20Direction%20w%20Appendices.pdf>

Er bod hyn yn wir, rhaid i'r darpar ymgeisydd gynnal cyfnod o ymgynghori statudol cyn-ymgeisio cyn cyflwyno cais cynllunio DAC. Wrth wneud hynny, rhaid i'r darpar ymgeisydd lunio adroddiad sy'n rhoi manylion y cyfrif a gymerwyd o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, fel rhan o'i gyflwyniad o gais cynllunio DAC. Anogir y rhai sy'n cefnogi'r ddeiseb hon i ymgysylltu â'r broses cyn ymgeisio pan fydd yn cychwyn.

Yr eiddoch yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government